



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Neges gan GwE ac Awdurdodau Lleol y Gogledd

Gobeithio bod pawb ohonoch yn cadw cystal â phosibl dan yr amgylchiadau.

Yn ystod y cyfnod digynsail hwn bydd y mwyafrif o ddysgwyr yn dysgu gartref yn hytrach nag yn yr ysgol. Rydym i gyd yn ymwybodol bod darparu cynnig o safon uchel i bob dysgwr yn dod â'i heriau gwahanol i chi yn y rhanbarth. Gwyddom eich bod yn delio'n ddyddiol efo cwestiynau heriol am ansawdd darpariaeth dysgu o bell, gyda llawer o gamsyniadau a rhagdybiaethau o du'r cyhoedd. Ar ben hynny, mae rhai rhieni yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu barn bersonol sydd, mewn rhai achosion, yn digalonni ysgolion a staff ar hyn o bryd.

Er mwyn eich helpu chi i ymateb i gwestiynau ac ymholiadau ynghylch dysgu o bell, rydym wedi cyd-lunio dwy ddogfen a fydd yn ddefnyddiol gobeithio.

Mae'r ddogfen gyntaf at ddibenion llywio polisi neu ddatganiad ysgol am sut yr ydych yn darparu dysgu o bell. Gellir ei defnyddio i gynnig rhagor o fanylion ynghylch dysgu o bell i lywodraethwyr neu rieni.

Mae'r ail ddogfen i chi ei defnyddio pan fyddwch chi'n egluro i rieni y gellir darparu dysgu o bell mewn gwahanol ffyrdd.

Braf yw clywed Penaethiaid yn dweud eu bod nhw'n cael rhai negeseuon calonogol gan eu rhieni am y ddarpariaeth a wneir. Mae llawer o arferion creadigol ac effeithiol yn ein hysgolion, a gobeithio bod y dogfennau hyn yn cyfleu rhai o'r ffyrdd llwyddiannus y mae ysgolion yn parhau i ddarparu dysgu yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Diolch am eich gwaith caled parhaus. Cadwch yn ddiogel.



Diolch Ysgolion Thank You Schools

Dogfennau:

[Canllawiau Dysgu o Bell ar gyfer rhieni Ysgolion Gogledd Cymru](#)

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

04/02/2021 - 17/02/2021

	DYDDIAD	CYFRWNG
Rhwydwaith Tymhorol y Cyfnod Sylfaen (cyfrwng Cymraeg)	04/02/2021	Cymraeg
Cyfarfodydd rhwydwaith tymhorol llythrennedd a rhifedd (Saesneg)	04/02/2021	Cymraeg
Delio gyda sefyllfaoedd anodd yn effeithiol (Carfan 3 - Sesiwn 1)	05/02/2021	Saesneg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (David Hughes, Llangefni, Y Bont)	08/02/2021	Cymraeg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Maelor, St Joseph's, St Christopher's)	08/02/2021	Saesneg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Morgan Llwyd, Clwstwr Maes Garmon)	08/02/2021	Cymraeg
Llythrennedd CA2 ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)	08/02/2021	Cymraeg
Datblygu Deilliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 5 - Sesiwn 1)	09/02/2021	Saesneg
Datblygu gweledigaeth a rennir, CiG, Sesiwn 1 (Creuddyn, D. Conwy, Glan Clwyd)	09/02/2021	Cymraeg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Eirias, Aberconwy, Bryn Elan)	09/02/2021	Saesneg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Alun, Hawarden, Fflint, Pen Coch, Maes Hyfryd)	09/02/2021	Saesneg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 2 (Friars / Tryfan, Brynrefail, Dyffryn Ogwen)	09/02/2021	Cymraeg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Rhyl, Prestatyn, Tir Morfa)	10/02/2021	Saesneg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Caergybi, Bodedern, Syr Thomas Jones)	10/02/2021	Cymraeg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Bryn Alun, Clywedog, Rhosnesni)	10/02/2021	Saesneg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Emrys, John Bright, Denbigh, Plas Brondyffryn)	10/02/2021	Saesneg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Syr Hugh Owen, Dyffryn Nantlle)	10/02/2021	Cymraeg
Y Ffordd lawn – Dull o weithredu lawnderau plant yng Nghymru (Cyfrwng Saesneg) Grwp 1	10/02/2021	Saesneg
Y Ffordd lawn – Dull o weithredu lawnderau plant yng Nghymru (dwyieithog)	10/02/2021	Dwyieithog
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Tywyn, Bro Idris, Moelwyn, Berwyn, Ardudwy)	11/02/2021	Cymraeg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Glan y Mor, Botwnnog, Eifionydd, Hafod Lon)	11/02/2021	Cymraeg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (St David's, Holywell, St Richard Gwyn)	11/02/2021	Saesneg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Brynhyfryd, Dinas Bran, Ceiriog)	11/02/2021	Cymraeg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Castell Alun, Cei Connah, Elfed / Argoed)	11/02/2021	Saesneg
Datblygu gweledigaeth a rennir CiG, Sesiwn 1 (Ruabon, Grango, Darland)	11/02/2021	Saesneg
Rhwydweithiau Arweinwyr Llythrennedd (Uwchradd)	11/02/2021	Saesneg

Newyddion a Gwybodaeth GwE

Cyfarfod ar-lein Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd CA2

TYMOR Y GWANWYN

DYDD IAU, 4 CHWEFOR 2021, 15:45 – 17:00.

Mae'r cyfarfod ar-lein hwn yn addas i Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd cynradd, ond canolbwyntir ar CA2 yn bennaf.

Bwriedir rhannu arferion effeithiol yn ymwneud â dysgu ac addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar-lein, a bydd cyflwyniad gan ein siaradwyr gwadd o [Ysgol Fali](#) a [Ysgol Henblas, Ynys Môn](#).

Ewch ar [G6](#) i gofrestru.



Gweithdy Digidol Iaith Gymraeg (Uwchradd)

Dyma wahoddiad i gyfres o weithdai wythnosol y tymor hwn sy'n cynnig hyfforddiant penodol ar gyfres o apiau i'ch cynorthwyo wrth addysgu ar-lein. Bydd y gweithdai yn canolbwyntio ar un ap ar y tro gan ddechrau gydag ap Jamboard, sy'n un o apiau Google for Education, ond fe fyddwn yn ystod y gweithdy yn cyfeirio at nifer o apiau rhyngweithiol eraill y gellid eu defnyddio ar lwyfan Microsoft Teams yn ogystal.

08/02/21 - Google / Microsoft Forms ac asesu

22/02/21 - Google Slides - mwy na chyflwyno!

01/03/21 - Google Docs - mwy na geiriau!

Hyd pob gweithdy fydd 45 munud gyda 15 munud i drafod a holi cwestiynau.

Cofrestrwch yma: <https://bit.ly/2KqRo6K>



Gweithdy ar-lein: Dysgu o bell mewn Mathemateg

Dydd Mercher 10 Chwefror 2021 16:00 – 17:00

Mae'r gweithdy ar-lein yma **AM DDIM** ac yn addas i athrawon Mathemateg Uwchradd.

Dr Gareth Evans, Pennaeth Mathemateg Ysgol Y Creuddyn, a chrëwr y wefan mathemateg.com, fydd yn arwain y sesiwn. Ffocws y gweithdy yw rhannu awgrymiadau ymarferol ar gyflwyno gwersi rhithiol, yn ogystal â rhannu ffynonellau defnyddiol i ddod o hyd i ragor o awgrymiadau ac arferion llwyddiannus. Bydd y gweithdy hefyd yn cynnwys arweiniad ac arddangosiad ar sut i ddefnyddio'r wefan whiteboard.fi, a'r defnydd o [gwestiynau diagnostig](#) i asesu lefel dealltwriaeth dosbarth.

I gofrestru ar y gweithdy, cwblhewch ffurflen gofrestru **erbyn 5/2/21** ar y ddolen hon: [Ffurflen Gofrestru](#). Mi fydd dolen Zoom yn cael ei gyrru at bawb sydd wedi cofrestru.

Dyfodol Byd-eang GwE – ITM

Ysgolion Cynradd - Gweminar: PowerLanguage: Adnoddau ymarferol i wreiddio ieithoedd yn y Cwricwlwm

Dyma'r ail weminar gan Powerlanguage ar gyfer ysgolion yng Nghymru – bydd croeso i ymarferwyr fynychu, hyd yn oed os na welwyd y weminar gyntaf. Bydd y tîm Powerlanguage yn cyflwyno adnoddau a fydd yn gallu cael eu defnyddio yn uniongyrchol yn y dosbarth neu ar-lein gan athrawon yng Nghymru. Themâu dan sylw: Iechyd a Lles a'r Hen Aifft. Rhennir yr adnoddau dan sylw gyda chyfranogwyr yn ystod y weminar. Sesiwn hwyliog a rhyngweithiol!

Bydd hwn yn gyfarfod Zoom a fydd yn digwydd ddydd Llun, 8 Chwefror am 4 o'r gloch.

Eventbrite Weminar Cymru: <http://pwlgl.link/3c0tACm>

Ysgolion Uwchradd - Cyfarfod Hwb - Ar Teams

Wrecsam/Sir y Fflint: Dydd Iau 4/2/21 3.30pm

Conwy/Sir Ddinbych: Dydd Iau 4/2/21 3.30pm

Môn/Gwynedd: Dydd Mawrth 9/2/21 3.30pm

Gall bob PA ac athro ITM fynychu'r cyfarfod hwn.

Anfonir dolen atoch neu gysylltwch â'ch arweinydd Hwb neu â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru.

Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).

Mae cymorth gweithredu ar gael drwy gyswllt fideo i **bob ysgol** yn rhanbarth GwE.

Bydd **Kaydee Owen** (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

Trefnwch amser un i un ar-lein: <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

9 Chwefror

11 Mawrth

Er mwyn cael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuol hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwylwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).

Er mwyn cael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuol hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwylwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).

Adnoddau Dysgu Cyfunol

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [School Guide](#) | **Cymraeg** - [Gwybodaeth i ysgolion](#)

Mae tudalen wybodaeth i'ch Llywodraethwyr hefyd, cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [Governors Guidance](#) | **Cymraeg** - [Canllawiau Llywodraethwyr](#)

Cwrs E-ddysgu Rhyngweithiol ADY

Mae Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarth y Gogledd yn falch o gyhoeddi bod y cwrs e-ddysgu rhyngweithiol sy'n cyflwyno'r system ADY newydd bellach ar gael ar blatfform Hwb Llywodraeth Cymru.

[Dyma](#) erthygl newyddion Hwb yn cyflwyno'r cwrs, sydd ar dudalen hafan Hwb ar hyn o bryd.

A [dyma'r ddolen](#) i'r cwrs ei hun.

Bydd eitem newyddion arni yng nghylchlythyr nesaf Dysg ac mae LIC yn gobeithio cael rhywbeth wedi'i ddarlledu ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Addysg LIC.

Dylai'r cwrs gymryd rhwng 40-60 munud i'w gwblhau ac mae wedi'i anelu at staff ym mhob sector sy'n gweithio gyda plant a phobl ifanc, gan gynnwys staff cymorth ysgolion, ac mae'n rhoi trosolwg eang o'r rolau statudol newydd, egwyddorion allweddol y Ddeddf, adnabod ADY a ble i ddod o hyd i wybodaeth bellach.



Rhaglen Dysgu Carlam

Peidiwch ag anghofio bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gael mynediad i'r adnoddau yn adran Sgiliau Carlam Canolfan Cefnogaeth GwE ar gael ar y dudalen gweminarau. Dilynwch y ddolen hon i weld recordiadau am **SAFMEDS**, **Headsprout**, **Cyflymu Llythrennedd a sgiliau Rhifedd**, yn ogystal â'r adolygiadau o **becynnau cymorth llythrennedd a rhifedd ar-lein**.

Anfonwch unrhyw ymholiadau ar e-bost i literacyandnumeracy@gwegogledd.cymru

Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

E-sgol: Cyrsiau Carlam Cymru

SESIYNAU DAL I FYNY AR GYFER DISGYBLION BLWYDDYN 11, 12 A 13 SYDD WEDI'U COMISIYNU GAN LYWODRAETH CYMRU

Mae pandemig Covid wedi arwain at fyfyrwyr ledled Cymru yn colli allan ar rai unedau mewn amryw o bynciau TGAU, AS a Lefel A. Er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr hyn yn cael cyfle i ddal i fyny mewn gwahanol bynciau, bydd **e-sgol** yn cynnal cyfres o sesiynau carlam ar ôl ysgol am bedair wythnos trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddechrau ddydd Llun 1 Mawrth. Bydd y sesiynau yn digwydd ar ôl ysgol.

Bydd y sesiynau yma ar gael i fyfyrwyr ym Mlwyddyn 11, 12 a 13 ar draws Cymru, gan gynnwys y pynciau canlynol:

Mathemateg, Cymraeg [Iaith], Cymraeg Ail Iaith, Saesneg [Iaith], Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Daaryddiaeth, Hanes, Ffrangeg a Seicoleg.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cefnogi'r 'Cyrsiau Carlam Cymru', [cliciwch yma](#) i fynegi'ch diddordeb.

Ceir rhagor o fanylion [yma](#).



Cymorth gyda chynllunio darllen a rhifedd

Oeddech chi'n gwybod?

- Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth sydd **eisoes ar system yr adroddiadau personol** i helpu cynllunio dysgu ac addysgu mewn darllen a rhifedd.
- Gallwch gael gafael ar adborth a chynnydd **asesiadau blynyddoedd blaenorol**, a fydd yn llywio eich gwaith cynllunio ar gyfer eleni.
- Mae adroddiadau ar gyfer dosbarthiadau a grwpiau blwyddyn yn dangos **proffil y grŵp o ran cyrhaeddiad** mewn rhifedd neu ddarllen, a hefyd yn dangos **cryfderau cymharol y grŵp mewn gwahanol feysydd sgiliau**.
- Ceir adnoddau hyfforddi, gan gynnwys **fideos cam wrth gam ar ddefnyddio'r system, a gweminarau** ar sut i fanteisio i'r eithaf ar adroddiadau, ar y wefan asesu.
- Rhaid i'ch pennaeth dderbyn y cytundeb data** ac adolygu swyddogaethau staff yn gyntaf, cyn y gallwch gael gafael ar adroddiadau i lywio eich gwaith cynllunio
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch sut i gael gafael ar adroddiadau, gallwch gysylltu â'r ddesg gymorth ar gyfer asesuadau ar 029 2026 5099 neu cymorth@asesiadaupersonol.cymru.

Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Cynllunio Dysgu Anghydamserol o Bell

Fydech chi'n hoffi cael gwybod rhagor am ddamcaniaeth ac ymarfer cynllunio dysgu i gefnogi dysgu o bell? Yma mae tair rhestr chwarae ([Cliciwch yma](#)) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'u cynllunio gan CDSM Interactive Solutions Ltd. Maen nhw ar gael i bawb ar HWB, ac yn darparu rhaglen hyfforddi helaeth a chynhwysfawr ar gyfer ymarferwyr sydd â diddordeb mewn dod yn arbenigwyr mewn cynllunio dysgu.

Bydd yr adnoddau'n ddefnyddiol wrth i chi gynllunio a chyflwyno dysgu o bell. Gwyddom pa mor brysur y mae pawb ar hyn o bryd wrth symud i addysgu ar-lein, felly mae'r fideo blasu byr hwn ([Cliciwch yma](#)) yn rhoi trosolwg o'r adnodd cyntaf, gan dynnu sylw at rai o'r agweddau mwyaf defnyddiol. Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfleoedd sydd wedi'u hariannu i ddyfnhau eich gwybodaeth am gynllunio dysgu trwy ddefnyddio'r adnoddau hyn, yna cysylltwch â'ch Arweinydd Dysgu Proffesiynol rhanbarthol:

eurosdavies@gwegogledd.cymru



CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL
REGIONAL SCHOOL IMPROVEMENT CONSORTIA



Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Llwybrau at Addysgu - Y Brifysgol Agored


Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig dau lwybr rhan-amser i addysgu. Mae'r rhain yn disodli'r holl lwybrau cyflogaeth eraill i addysgu. Os oes gennych rywun yng nghymuned eich ysgol y gwyddoch y byddai'n gwneud athro rhagorol, nawr yw'r amser i wneud cais i ddechrau hyfforddi ym mis Medi 2021 <http://www.open.ac.uk/courses/choose/cymru/tar>

Cyrsiau ar gael:

- Llwybr Cyflogedig** – Cynradd, Mathemateg Uwchradd, Gwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg. (Ceisiadau cynradd yn cau'n fuan)
- Llwybr Rhan-amser** – Cynradd, Mathemateg Uwchradd, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg, Saesneg gyda Drama, Saesneg gydag Astudiaethau'r Cyfryngau.

50% cyfraniad cyflog gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llwybrau cyflogedig eilaidd (55% cyfrwng Cymraeg)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ceriwilliams3@GwEgogledd.cymru neu Wales-PGCE@open.ac.uk



Pecynnau llyfrau Teithiau ac Anturiaethau i blant ym Mlwyddyn 6

Mae BookTrust Cymru'n falch o gyhoeddi prosiect arbennig newydd a fydd yn cael ei ddarparu ym mis Chwefror fel rhan o'n rhaglen ar gyfer 2020-21. Ariennir y prosiect gan Lywodraeth Cymru.

Mae prosiect Teithiau ac Anturiaethau'n rhan o'n gwaith i gefnogi plant sydd wedi cael eu heffeithio gan bandemig Covid. Bydd yn cefnogi plant ym Mlwyddyn 6 sydd wedi methu â chael gafael ar lyfrau o ansawdd da ac sy'n debygol o fod wedi colli'r cyfle i fanteisio ar fuddion addysgol, cymdeithasol a chreadigol darllen.

Bwriad Teithiau ac Anturiaethau yw cefnogi plant gyda'u dysgu a'u datblygu drwy eu denu i fwynhau profiadau darllen a datblygu arferion darllen er pleser.

Sut ydw i'n cymryd rhan?

- Llenwch y ffurflen gofrestru **ar y cyfle cyntaf**: <https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=160683340905>

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda â: booktrustcymru@booktrust.org.uk



Diwrnod Llawn o Gymraeg

Dyma'r Athro Enlli Môn [yn siarad am y daith ddwyieithog](#) a sut mae sgiliau iaith y mae plant yn eu meithrin yn aros gyda nhw am oes.

Dyma awgrymiadau da ar sut i wneud eich diwrnod yn [ddiwrnod llawn o Gymraeg](#).



Welsh4parents

Mae gwefan newydd, www.welsh4parents.cymru a gwasanaeth e-bost wedi lansio'r wythnos hon i ddarparu adnoddau a chefnogaeth gyffredinol i rieni.

Yn ôl yr arfer, rydym yn annog dysgwyr, rhieni a gofawyr i siarad â'u hathrawon. Yr ysgol ddylai fod eu cyswllt cyntaf.



Dydd Miwsig Cymru - 5 Chwefror 2021

Dyma ffordd hawdd i chi ymuno yn hwyl Dydd Miwsig Cymru

[Cwis pop Radio Cymru](#)



Adnoddau Blwyddyn Newydd Tsieineaidd

Mae'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd yn dechrau ar 12 Chwefror 2021, ac eleni rydyn ni'n dathlu Blwyddyn yr Ych.

Mae'r British Council wedi darparu adnoddau am ddim - i'w defnyddio gan blant, rhieni neu ofalwyr, ac athrawon. Dyma gyfle i ddarllen fersiwn o stori draddodiadol Ras y Flwyddyn Newydd, creu pypedau cysgod o brif gymeriadau'r stori a chreu llusern Dsieineaidd draddodiadol.

Mae'r adnoddau ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a gallwch eu lawrlwytho [yma](#).



AmaSing - Digwyddiad Ar-lein Am Ddim - Mil o Swigod yn Canu

Mae AmaSing yn cydweithio â llawer o ysgolion a chanolfannau cerddoriaeth i gynnal sesiwn Canu Torfol am **DDIM** lle byddant yn dod â mil o swigod o ysgolion yn y DU a thramor at ei gilydd.

Bydd y cyfranogwyr yn dod at ei gilydd i ganu'r caneuon AmaSing isod o'u prosiect newydd "Connect"

1. *Let's Build a World*
2. *Cân ymgyrch newydd Sŵ Caer - Sustainability*

Byddent wrth eu boddau pe byddai'ch ysgol gyfan yn cymryd rhan, gyda swigod o ddosbarth Blynnyddoedd Cynnar y Cyfnod Sylfaen hyd at Flwyddyn 6 yn dysgu'r caneuon a'r dawnsfeydd hyn i'w perfformio ar 23 Ebrill am 9.15yb – 9.30yb ar-lein gyda miloedd o blant eraill dan arweiniad ein cyfarwyddwr cerdd Andy Smith a'r arbenigwr dawns Kelly Stevens o Dŷ Dawns.

Mae'r holl ganeuon / adnoddau / fideo dawns/ geiriau i'w cael ar www.amasing.org.uk [Saesneg yn unig].

Ewch i Tab Music Resource - cofrestrwch am ddim, yna ewch i Connect 21 a chliciwch ar "Let's Build a World" neu "Sustainability" - bydd popeth sydd ei angen arnoch yno.

Anfonwch e-bost at rach@amasing.org.uk i gadw eich lle a rhoi gwybod iddi faint o swigod yn eich ysgol fydd yn mynychu.



Prosiect Pleidlais

Etholiad Senedd paralel yw'r Prosiect Pleidlais, wedi ei anelu at bobl ifanc 11-15 oed, ac wedi ei drefnu gan y Comisiynydd Plant. Gall ysgolion uwchradd a sefydliadau eraill cofrestru nawr trwy ymweld â www.prosiectpleidlas.cymru. Bydd ganddynt fynediad i adnoddau ar-lein, yn cynnwys pecynnau dysgu adre. Bydd pleidleisio ar-lein yn cymryd lle ddiwedd mis Ebrill, a byddwn ni'n cyhoeddi map canlyn-iadau. [Dyma fideo](#) sy'n esbonio mwy.

Ar 8 Chwefror, rydyn ni'n cynnal gweminar i athrawon, fel bod staff yn gallu clywed mwy am yr etholiad paralel, ac yn gallu gofyn cwestiynau. [Ewch i'n tudalen ddigwyddiadau](#) i ddysgu mwy.

**PROSIECT
Pleidlais**

Etholiad paralel
Senedd 2021 i
bobl ifanc
11-15 oed

post@gwegogledd.cymru

